**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Mai 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Hugh Evans - Arweinydd
Gary Williams - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol

**Teitl:** Monitro Darparwyr Gwasanaeth a ariennir gan y Cyngor

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am gwmpas a'r cynllun prosiect ar gyfer adolygu monitro Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor, a fydd yn arwain at fframwaith newydd ar gyfer rhoi trefniadau o'r fath ar waith.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mynegwyd pryderon ynglŷn â monitro Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor, yn enwedig i ddysgu gwersi o'r trefniadau Clwyd Leisure Limited a sicrhau fod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i fonitro llywodraethu, perfformiad ariannol, perfformiad gweithredol a'r defnydd o arian y Cyngor.

Yn ei gyfarfod diwethaf, bu'r Pwyllgor hwn hefyd yn trafod rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig wrth gynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol a gofynnodd am ragor o wybodaeth am sut fyddai hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o Ddarparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor .

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- I'r Pwyllgor ystyried a thrafod y cwmpas arfaethedig a'r cynllun prosiect
- I'r Pwyllgor gytuno sut y mae'n dymuno monitro cynnydd ar y prosiect

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r Cwmpas a Chynllun Prosiect ynghlwm (Atodiad 1) yn darparu manylion llawn i'r Pwyllgor o'r rhesymeg y tu ôl i'r adolygiad hwn, cwmpas y gwaith sydd i'w wneud a'r amserlenni ar gyfer y prosiect.

Bydd y prosiect yn arwain at fframwaith newydd ar gyfer dechrau trefniadau gyda sefydliadau y mae'r Cyngor yn darparu cyllid iddynt i ddarparu gwasanaethau ar ei ran. Bydd hyn yn cynnwys cyrff hyd braich, partneriaethau, sefydliadau a ariennir gan grantiau, a chyflenwyr mawr trydydd parti o wasanaethau allweddol.

Y nod yw darparu dull sy'n seiliedig ar risg, yn dibynnu ar lefel y cyllid y mae'r Cyngor yn ei ddarparu, fel na fydd y trefniadau yn or-fiwrocrataidd ar gyfer sefydliadau bach, ond yn darparu trefniadau cadarn ar gyfer trefniadau ariannu mwy sylweddol. Mae hyn yn golygu y bydd gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i roi sicrwydd i uwch reolwyr, aelodau etholedig a'i rhanddeiliaid bod y cyllid mae'n ddarparu i drydydd partïon yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas a fwriadwyd a'i fod yn cyflawni'r amcanion gofynnol.

Bydd y fframwaith newydd hefyd yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau bod rolau aelodau etholedig ar 'fyrddau' yn glir, wedi'u deall yn llawn ac yn cael eu defnyddio i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd i'r Pwyllgor eisoes ar gynrychiolaeth aelodau etholedig ym mis Gorffennaf 2014 (ynghlwm fel Atodiad 2) ac mae'r prosiect hwn yn rhoi'r cyfle i roi sylw i hyn fel rhan o fframwaith cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys rolau aelod etholedig, cyfrifoldebau, llinellau adrodd ac amlder adrodd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar yr adroddiad hwn; fodd bynnag, gall y gwaith a wneir gan Ddarparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor gyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r Blaenoriaethau Corfforaethol, yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Trafododd y Tîm Gweithredol Corfforaethol gwmpas drafft ar gyfer y prosiect ar 28 Gorffennaf 2014, gan gytuno ar ddyddiad cwblhau o 31 Mawrth 2015. Yn anffodus, oherwydd newidiadau sylweddol yn y tîm Archwilio Mewnol, mae'r terfyn amser hwn wedi cael ei ohirio i 30 Mehefin, 2015.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd y fframwaith newydd yn sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn mynd i'r afael â'r risgiau allweddol canlynol:

- Mae cael cyfarwyddyd a threfniadau cyson ar gyfer sefydlu a chofnodi Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor yn golygu y bydd yn gwbl ymwybodol o'r holl Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor  bydd yn ymdrin â nhw.
- Mae cael trefniadau monitro rheolaidd a chadarn yn golygu na fydd yn ariannu Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor  nad ydynt yn darparu'r canlyniadau a fwriadwyd a bydd yn ymwybodol o'r Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor  sy'n perfformio'n wael, yn weithredol a/ neu'n ariannol.
- Mae cael trefniadau llywodraethu cadarn dros Ddarparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor yn lleihau'r tebygolrwydd o fethiant yn ei stiwardiaeth o gyllid cyhoeddus.
- Mae cael mecanweithiau rhybuddio cynnar trwy wybodaeth monitro rheolaidd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn dioddef colled ariannol o ganlyniad i Ddarparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor yn peidio â bodoli ac ni ddylai orfod camu i mewn gyda threfniadau at raid i ddarparu gwasanaethau.
- Mae cael achosion busnes cadarn ar gyfer cymeradwyo trefniadau Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor yn golygu y gall sicrhau bod Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor  yn rhannu gwerthoedd Cyngor Sir Ddinbych ac ni ddylai ddwyn anfri ar y Cyngor drwy ei ymddygiad.
- Mae cael cytundebau cyfreithiol cadarn a chytundebau lefel gwasanaeth yn sicrhau bod y ddau sefydliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cryfhau sefyllfa Cyngor Sir Ddinbych mewn achos o anghydfod.
- Mae darparu arweiniad a chefnogaeth gadarn i'w aelodau etholedig sy'n eistedd ar gyrff allanol yn diogelu eu buddiannau, yn gwella'r tebygolrwydd o archwilio cadarn ac yn egluro'r sefyllfa gyfreithiol a'r gwrthdaro o ran buddiannau sy'n ymwneud â swyddi cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr.
- At ei gilydd, mae'r fframwaith yn golygu na ddylai Cyngor Sir Ddinbych ddioddef niwed sylweddol i'w enw da oherwydd methiant Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.